Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau newydd



Chwefror 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/drafft-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-2026

**E-bost:** PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma

Rhif trwydded Photosymbols R 403527247

# Cynnwys


**Am y llyfryn yma....................................................................4**

**Am y Strategaeth ....................................................................7**

**Blaenoriaeth 1: Adnabod a chydnabod.................................. 16**

**Blaenoriaeth 2: Mynediad at wasanaethau ......................... 19**

**Blaenoriaeth 3: Gofalwyr ifanc................................................ 22**

**Blaenoriaeth 4: Caledi ariannol............................................... 27**

**Blaenoriaeth 5: Cyflogaeth â thâl .......................................... 28**

**Blaenoriaeth 6: Gofal seibiant ac egwyl................................ 31**

**Blaenoriaeth 7: Iechyd meddwl a llesiant ............................ 32**

**Blaenoriaeth 8: Gofalwyr wrth gynllunio gofal.................... 34**

# Am y llyfryn yma




Rydyn ni wedi gwneud y cynllun newydd yma i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'n cael ei alw yn strategaeth.




Fe wnaethon ni gynllun hefyd yn 2021. Mae'r strategaeth yma yn cymryd lle hynny.



Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n feddwl o'r strategaeth.

# Sut i ymateb



Darllenwch hwn ac yna atebwch y cwestiynau yn y Ffurflen Ymateb.




Rydych chi’n gallu eu hateb yma: [llyw.cymru/yn-anffodus-nid-oedd-modd-dod-o-hyd-ir-dudalen](llyw.cymru/yn-anffodus-nid-oedd-modd-dod-o-hyd-ir-dudalen)



Neu e-bostiwch eich atebion i: [UnpaidCarersPolicy@gov.wales](mailto:UnpaidCarersPolicy@gov.wales)



Neu rydych chi’n gallu postio eich atebion i:

Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ




Mae angen i ni dderbyn eich atebion erbyn, **Dydd Llun, 13 Ebrill 2026**.

## Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Os ydych chi eisiau cael fersiwn hawdd ei ddeall o sut rydyn ni'n defnyddio ac yn storio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â:




**Swyddog Diogelu Data**

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD


CF10 3NQ






**E-bost:** Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

# Am y Strategaeth




Mae Llywodraeth Cymru yn creu Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.




Mae hon yn strategaeth ddrafft. Mae hynny'n meddwl nad dyma'r fersiwn derfynol.



Mae hwn yn gynllun ar gyfer beth mae angen i ni ei wneud i helpu a chefnogi gofalwyr di-dâl.



Fe fyddwn ni'n gwneud y fersiwn derfynol pan fyddwn ni wedi gwrando ar beth mae pobl yn feddwl.





Mae wedi ei seilio ar 8 prif flaenoriaeth. Mae blaenoriaethau yn meddwl yr 8 maes pwysig rydyn ni'n meddwl bod angen i ni ganolbwyntio arnyn nhw.



Fe wnaethon ni'r blaenoriaethau yma trwy siarad â:

- gofalwyr di-dâl
- a sefydliadau ar draws Cymru.




Rydyn ni wedyn wedi gwneud camau gweithredu. Dyma'r pethau mae angen i ni eu gwneud i gyflawni'r blaenoriaethau.

**Yr 8 blaenoriaeth ydy:**



1. **Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth** – Mae hyn yn meddwl ein bod am wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am ofalwyr di-dâl.




2. **Mynediad at wasanaethau** – Mae angen cymorth ar ofalwyr di-dâl hefyd. Mae angen iddyn nhw wybod eu hawliau a cael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion.



3. **Gofalwyr ifanc** – mae angen cymorth arnyn nhw trwy addysg a gwasanaethau cymunedol. Mae angen asesiadau rheolaidd arnyn nhw hefyd ar gyfer cefnogaeth.



4. **Caledi ariannol** – mae hyn yn meddwl nad oes gan ofalwyr di-dâl ddigon o arian. Mae angen cymorth arnyn nhw i gael mynediad at fudd-daliadau.



5. **Cyflogaeth â thâl** – mae angen cymorth ar ofalwyr di-dâl i aros yn y gwaith a mynd yn ôl i'r gwaith. Mae angen i gyflogwyr gefnogi gofalwyr di-dâl.



6. **Gofal Seibiant ac egwyl** – mae seibiant yn meddwl cymryd egwyl.  Mae angen mwy o opsiynau i gefnogi pobl.



7. **Iechyd meddwl a llesiant** – edrych bod gwasanaethau a grwpiau cymorth yn gweithio'n dda.




8. **Gofalwyr a chynllunio gofal** – gwneud yn siŵr bod gofalwyr yn cymryd rhan yn llawn ac yn cael dweud eu dweud am y rhai y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Er enghraifft, cynllunio gofal a gadael yr ysbyty.

# Beth ydy gofalwr di-dâl?



Mae gofalwyr di-dâl yn wahanol i weithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig neu wirfoddolwyr sy'n gweithio trwy sefydliad.



Mae'n berson sy'n darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Ond dydyn nhw ddim yn ei wneud fel rhan o swydd.



Mae'n well gan rai pobl beidio â defnyddio'r term gofalwr di-dâl.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni



Mae gofalwyr di-dâl yn aml yn dweud eu bod yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu gwerthfawrogi na'u clywed.



Dydy llawer o bobl ddim yn deall pa mor bwysig ydy eu rôl. A'r hawliau sydd ganddyn nhw.



Dydy llawer ddim yn cael y cymorth maen nhw ei angen neu pan maen nhw ei angen.



Roedd rhai pobl yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd eraill yn teimlo nad oedden nhw.




Roedd rhai yn dweud eu bod wedi aros am amser hir i asesu eu hanghenion.



Roedd llawer o bobl yn dweud bod grwpiau cymorth cymheiriaid yn bwysig. Mae'r rhain yn grwpiau lle mae gofalwyr yn cyfarfod ac yn cefnogi ei gilydd.



Mae llawer o ofalwyr ifanc yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu clywed. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd cydbwyso gofalu â'r ysgol neu'r coleg.



Maen nhw'n aml yn colli allan ar weithgareddau eraill. Maen nhw hefyd yn profi llawer o straen ac maen nhw angen mwy o gefnogaeth.



Maen nhw'n teimlo y dylen nhw gael mwy o lais ar sut mae pethau'n cael eu gwneud.



Yn aml, does gan ofalwyr di-dâl ddim digon o arian. Yn aml mae ganddyn nhw gostau uchel ar gyfer pethau fel gwresogi a thrafnidiaeth.



Roedd llawer yn ei chael hi'n anodd gofalu a gweithio. Mae hyn yn aml yn meddwl bod pobl yn gadael eu swyddi neu'n gweithio llai o oriau.




Dywedon nhw hefyd fod yn rhaid iddyn nhw aros am asesiadau ar gyfer y rhai roedden nhw'n gofalu amdanyn nhw, neu eu hunain. Roedd hyn yn anodd. Mae'n meddwl eu bod yn aros am gefnogaeth.



Roedd rhai yn dweud bod eu cyflogwyr yn rhoi help ac yn eu cefnogi. Roedd eraill yn dweud nad oedden nhw'n cael eu deall.



Roedd llawer o ofalwyr yn teimlo nad oedd gofal seibiant yn ddigon da. Mae hwn yn fater pwysig iawn iddyn nhw.



Mae llawer o ofalwyr dan straen mawr. Maen nhw'n aml yn teimlo'n unig ac yn flinedig iawn. Mae angen mwy o gefnogaeth arnyn nhw.




Dydy pobl ag anableddau dysgu yn aml ddim yn cael gwybodaeth mewn Hawdd ei Ddeall. Dydy pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn aml ddim yn cael gwybodaeth maen nhw'n gallu ei deall.




Roedden nhw hefyd yn dweud bod llai o wasanaethau dydd. Mae hyn yn meddwl mwy o ddyletswyddau gofal iddyn nhw.



Mae'r 8 blaenoriaeth wedi eu seilio ar beth mae gofalwyr di-dâl wedi'i ddweud wrthyn ni. Maen nhw am sut maen nhw'n teimlo a beth maen nhw ei angen.



Fe fyddwn ni nawr yn siarad am bob blaenoriaeth a'r camau sydd angen eu cymryd.




Fe fydd y camau gweithredu yn cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru, cynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, sefydliadau gofal ac eraill.

# Blaenoriaeth 1: Adnabod a chydnabod

**Mae hyn yn meddwl:**



- Rydyn ni eisiau i fwy o bobl ddeall pwy ydy gofalwyr di-dâl a beth maen nhw'n ei wneud.



- Rydyn ni eisiau i fwy o ofalwyr di-dâl gydnabod eu rolau eu hunain.



- Rydyn ni eisiau i fwy o ofalwyr di-dâl gael eu cefnogi.

**Camau gweithredu:**



- Fe fydd ymgyrch yn siarad am ofalwyr di-dâl a'u hawliau.



- Gwneud hyfforddiant ar-lein a gwybodaeth am ofalwyr di-dâl.



- Gwneud yn siŵr bod mwy o staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud yr hyfforddiant ar-lein. Gan gynnwys meddygon teulu.



- Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am ofalwyr ifanc.



- Gwneud yn siŵr bod Byrddau Iechyd yn cofnodi manylion gofalwyr di-dâl.



- Gwneud yn siŵr bod staff sy’n gweithio i’r cyngor yn gwybod digon am ofalwyr di-dâl.

# Blaenoriaeth 2: Mynediad at wasanaethau

**Mae hyn yn meddwl:**



- Rydyn ni eisiau i fwy o ofalwyr di-dâl wybod pa hawliau sydd ganddyn nhw.




- Rydyn ni eisiau i fwy o ofalwyr di-dâl gael asesiad o anghenion gofalwyr. Pan fyddan nhw ei angen.



- Rydyn ni eisiau iddyn nhw dderbyn y gefnogaeth maen nhw ei angen.

**Camau gweithredu:**




- Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am y Siarter Gofalwyr.



- Fe fydd sefydliadau gofalwyr yn cynnal ymgyrchoedd am hawliau gofalwyr.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y wybodaeth gywir am asesiadau.



- Gwneud yn siŵr bod staff wedi'u hyfforddi'n dda.




- Mae cynghorau yn gwella sut i ailasesu gofalwyr pan fydd eu hanghenion yn newid.




- Mae gan fwy o ofalwyr gynlluniau cymorth trwy eu cyngor.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael y wybodaeth gywir am wasanaethau a chynlluniau cymorth.

# Blaenoriaeth 3: Gofalwyr ifanc

**Mae hyn yn meddwl:**



- Rydyn ni eisiau i ofalwyr ifanc wybod eu hawliau.



- Rydyn ni eisiau iddyn nhw gael dweud eu dweud ar wasanaethau.



- Rydyn ni eisiau i gynghorau lleol edrych i weld nad ydy gofalwyr ifanc yn gwneud gormod. Er enghraifft, gwneud yn siŵr nad ydy eu haddysg neu eu llesiant yn cael ei effeithio gan ofalu.



- Rydyn ni eisiau i ofalwyr ifanc gael eu cefnogi yn eu hysgol neu eu coleg.




- Rydyn ni eisiau gwell gwybodaeth am lesiant i ofalwyr ifanc. Rydyn ni hefyd eisiau mwy o gymorth iechyd meddwl.




- Rydyn ni eisiau i Gardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc gael eu cydnabod mewn ysgolion a gan fferyllwyr.



- Rydyn ni eisiau mwy o wasanaethau i ddeall a gwrando ar ofalwyr ifanc. Er enghraifft, iechyd a'r heddlu.



- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n colli cyfleoedd i ddysgu a gweithio.

**Camau gweithredu:**



- Cael gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am y Cyfamod Gofalwyr Ifanc.



- Mae mwy o wasanaethau yn gofyn beth mae gofalwyr ifanc yn feddwl.



- Mae cynghorau lleol yn gwneud yn siŵr bod asesiadau o ofalwyr ifanc yn cael eu gwneud. Hefyd yn cael ei ailadrodd pan fydd newidiadau'n digwydd.




- Mae gofalwyr ifanc yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen. Fe ddylai hyn fod mewn Cynllun Cymorth i Ofalwyr.



- Mae cynghorau yn edrych I weld nad ydy gofalwyr ifanc yn gwneud gormod.




- Mae ysgolion a cholegau yn cefnogi gofalwyr ifanc ac mae ganddyn nhw reolau ar waith i'w helpu i wneud hynny.



- Mae cynghorau'n parhau i redeg y Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc.



- Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod fferyllwyr yn gwybod am y cardiau yma.



- Mae gofalwyr ifanc yn cael cymorth iechyd meddwl a llesiant.



- Fe ddylai gofalwyr ifanc gael dweud eu dweud am y rhai maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Pan mae'n iawn gwneud hynny.



- Gwneud yn siŵr bod gan fwy o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg wybodaeth i gefnogi gofalwyr ifanc.



- Gofalwyr ifanc i gael mynediad at seibiant ac egwyl byr pan fyddan nhw ei angen.


# Blaenoriaeth 4: Caledi ariannol



**Mae hyn yn meddwl:**

- Rydyn ni eisiau i ofalwyr di-dâl wybod pa fudd-daliadau maen nhw'n gallu eu derbyn a sut i wneud y gorau o'u hincwm.

**Camau gweithredu:**



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael gwybod am fudd-daliadau a gwasanaethau maen nhw'n gallu eu derbyn.



- Mae staff y gwasanaethau yn dweud wrth ofalwyr di-dâl lle i fynd i gael help gyda budd-daliadau.




- Mae gwasanaethau gofalwyr yn rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau.



- Mae Cronfa Cymorth Gofalwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i redeg.

# Blaenoriaeth 5: Cyflogaeth â thâl

**Mae hyn yn meddwl:**



- Mae gofalwyr di-dâl yn gallu aros yn y gwaith neu fynd yn ôl i'r gwaith.  Fydd hyn ddim yn effeithio ar gefnogaeth i'r person maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.



- Mae sefydliadau cymorth cyflogaeth yn gwybod mwy am ofalwyr di-dâl.




- Mae cyflogwyr yn gwybod am hawliau gofalwyr ac yn gadarnhaol am gyflogi gofalwyr.

**Camau gweithredu:**




- Mae asesiadau anghenion gofalwyr yn cynnwys dewisiadau gofalwyr am waith.




- Mae'r cynllun gofal a chymorth yn cynnwys y gwasanaethau gofal maen nhw eu hangen pan fyddan nhw yn y gwaith.



- Mae staff sy'n gweithio mewn rolau cymorth swyddi yn gwybod am ofalwyr di-dâl a'u hawliau.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael y cymorth cywir i fynd yn ôl i'r gwaith.




- Mae gan gyflogwyr wybodaeth am ofalwyr a'u hawliau mewn gwaith.



- Fe fydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn edrych ar ffyrdd o wella'r gweithle i ofalwyr.

# Blaenoriaeth 6: Gofal seibiant ac egwyl

**Mae hyn yn meddwl:**



- Mae gofalwyr di-dâl yn gallu cael mynediad at seibiannau o ofalu. Mae'r rhain yn iawn iddyn nhw a'r rhai maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.

**Camau gweithredu:**



- Cynghorau lleol i adolygu a datblygu gwasanaethau seibiant. Mae hyn yn cynnwys seibiannau byrrach a gwyliau.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael y wybodaeth maen nhw ei hangen am seibiant.



- Mae'r Cynllun Seibiannau Byr yn parhau i ddarparu seibiannau i ofalwyr o ofalu.

# Blaenoriaeth 7: Iechyd meddwl a llesiant

**Mae hyn yn meddwl:**



- Mae gofalwyr di-dâl yn gallu rheoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant.



- Mae gofalwyr di-dâl sydd mewn perygl o hunanladdiad yn cael eu cefnogi. Hunanladdiad ydy pan fydd rhywun yn ceisio cymryd eu bywyd eu hunain.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael cymorth os bydd gofalu yn dod i ben.

**Camau gweithredu:**



- Mae cynghorau a gwasanaethau iechyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl i ofalwyr.



- Mae sefydliadau gofalwyr yn darparu cymorth llesiant.



- Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn dysgu mwy am ofalwyr.




- Mae hyfforddiant yn cael ei roi i sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr am hunanladdiad.




- Rhoi mwy o wybodaeth am fywyd ar ôl gofalu.

# Blaenoriaeth 8: Gofalwyr wrth gynllunio gofal

**Mae hyn yn meddwl:**




- Mae gofalwyr di-dâl yn cymryd rhan  yn llawn mewn  asesiadau, cynlluniau gofal a chynlluniau triniaeth.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cymryd rhan yn llawn pan fydd y person maen nhw'n gofalu amdanyn nhw yn gadael yr ysbyty. Maen nhw hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Camau gweithredu:**



- Mae staff yn cynnwys gofalwyr di-dâl mewn asesu, cynlluniau gofal, cynlluniau triniaeth ac adolygiadau.



- Mae staff yn cynnwys gofalwyr pan fydd person yn gadael yr ysbyty.



- Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu clywed pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud am ofal a chymorth.